

Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd ar Nos Lun 7fed Tachwedd, 2022
am 7.30 y.h. yn Neuadd Lisburne Llanafan.
Minutes of Trawsgoed Community Council held on Monday 7th November, 2022 at 7.30 p.m.
held at Lisburne Hall, Llanafan

Presennol/Present: Cyng./Cllr. A. Evans (Cadeirydd/Chair)
Cyng./Cllr. M. Davies, Cyng./Cllr. E. Lewis, Cyng. C. Lloyd-Morgan, Cyng. A. Richards
Cynghorydd Sir/County Councillor Meirion Davies

Ymddiheuriadau / Apologies: Cyng./Cllr. P. Davies, Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. A.
Davies, Cyng./Cllr. Sh. Edwards

184. **Materion Personol**

Personal Matters

185. **Datgelu Buddiannau Personol**

Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau.

Disclosure of Personal Interest

Members were reminded to declare an interest when discussing items.

186. **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2023**

Ymatebwyd fel a nodir isod i argymhelliad y Panel bod rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w haelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y cartref (gan gynnwys gwresogi, goleuo, ynni a band eang) a geir o weithio gartref.

Cynghorau hefyd naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost y nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen er mwyn cyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa.

Ymateb y Cyngor Bro:

Cyngor Bro bychan yw Cyngor Bro Trawsgoed gyda 10 o Gynghorwyr gyda'r praesept blynyddol yn £4,500. Ni fyddai'r Cynghorwyr yn dymuno derbyn y taliadau a awgrymir o fewn yr adroddiad gan byddai'n golygu cynyddu ar ofynion y Praesept. Wrth wneud hynny byddai taliadau Treth y Cyngor ar drethdalwyr yn cynyddu a byddai hynny'n rhoi mwy o faich ariannol ar drethdalwyr, baich na ddylid ei rhoi arnynt yn y cyfnod anodd yma.

Draft Annual Report of the Independent Panel for Wales on Remuneration - February 2023

A response as noted below was sent to the Panel in response to the Panel's recommendation that each council must pay its members £156 a year (equivalent to £3 per week) towards additional household expenses (including heating, lighting, energy and broadband) incurred from working from home.

Community Councils also to either pay their members £52 a year for the cost of office consumables needed to fulfil their role, or alternatively councils must enable members to claim full reimbursement for the cost of their office consumables.

Response of the Community Council:

Trawsgoed Community Council is a small Community Council with 10 Councillors with the annual precept of £4,500. Councillors would not wish to accept the payments suggested within the report as it would involve increasing on the requirements of the Precept. In doing so the Council Tax payments on taxpayers would increase and that would place a greater financial burden on council taxpayers, a burden that should not be placed on them in these cold times.

Teimlir mai opsiynol y dylai'r taliadau i fod ble medrir gwrthod y taliadau pe dymunir. Nododd y Cynghorwyr eu bod yn falch o fedru gwasanaethu eu cymuned yn wirfoddol a ni fyddent yn dymuno derbyn swm ariannol am gostau am wneud hyn. Gan mai Cyngor Bro bychan yw hwn nid oes rhyw lawer o gyswllt rhwng cyfarfodydd i fedru hawlio y taliadau a nodir a nid yw'r Cynghorwyr yn defnyddio nwyddau traul swyddfa i fedru hawlio amdanynt.

187. **TERFYNAU CYFLYMDER:**

188. Cais ymgynghorol wrth Gyngor Sir Ceredigion drwy ostwng Derfynau Cyflymder mewn mannau o 30 mya i 20 m.y.a o fewn Ceredigion ac yn benodol i'r Cyngor Bro yma Pentref Llanafan.
Ymateb y Cyngor Bro
Nodir fod Cyngor Bro Trawsgoed yn cytuno gyda'r cynlluniau o ran gostwng y Terfynau Cyflymder ym Mhentref Llanafan i 20 m.y.a. fel a nodir ar y map.

It is felt that the payments should be optional where the costs can be refused if desired. Councillors indicated that they were pleased to be able to serve their community voluntarily and would not wish to receive a monetary amount for costs for doing this. As this is a small Community Council there is little contact between meetings to be able to claim the charges stipulated and councillors do not use office consumables to be able to claim for them.

SPEED RESTRICTIONS

A consultation request from Ceredigion County Council on the proposals of reducing Speed Limits in certain location within Ceredigion from 30 mph to 20 mph and specifically related to this Community Council at Llanafan.
Response of Community Council:
Trawsgoed Community Council agreed with the plans for reducing the Speed Limits in Llanafan Village to 20 m.p.a. as indicated on the map.